

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 4 Tachwedd, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Y Cynghorydd H.M. Payne (Is-gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, S. Campbell, W. Gilligan, E. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson a N.B. Marshallsea.

Aelodau Cyfetholedig: M. Werrett (Yr Eglwys yng Nghymru), Dr. M. Price (Yr Eglwys Babyddol), L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd), G. Van der Burgt (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd), E. Woodfield a T. Williams (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a Dr. I.J. Johnson.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr E.J. Goodjohn a S.J. Haines.

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 19 Medi a 7 Hydref, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. YMGYNGHORIAD AR STRATEGAETH HYGYRCHEDD YSGOLION DRAFFT 2025-2027 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried, fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig, gan gynnwys:

- Pwysigrwydd asesu ac ystyried anghenion y plant nad ydynt mewn addysg nac yn cael eu haddysgu gartref a sut mae'r Cyngor yn cyfrif amdanynt fel

rhan o'r Strategaeth, gan gynnwys unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt;

- Manteision cadarnhaol adeiladu ail Ysgol Y Deri trwy ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol;
- Pwysigrwydd darpariaeth barhaus o wasanaethau allgymorth arbenigol cynhwysfawr ac ystwyth sy'n cefnogi plant ag anawsterau dysgu ar draws ysgolion prif ffrwd ym Mro Morgannwg, i'r un safon uchel.

Rheswm dros yr argymhelliad

I'r Cabinet ystyried sylwadau'r Pwyllgor fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

EITEM AGENDA 5. CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2025-30 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid rhannu'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol er mwyn llywio'r diwygiadau i'r Cynllun Corfforaethol, cyn i'r Cabinet ystyried drafft terfynol maes o law:

- Pwysigrwydd amlinellu ymhellach sut y caiff yr ymgynghoriad ei ariannu a sut y bydd sylwadau ac adborth preswylwyr yn cael eu clywed, eu rheoli, eu trefnu a'u trin;
- Pwysigrwydd sicrhau bod y rhai nad ydynt mewn ysgol brif ffrwd neu addysg gartref yn cael eu hystyried fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol a'r ymgynghoriad, roedd yn bwysig bod Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi gwybod i drigolion am y ffocws ar y gyfran o'r gyllideb a ddefnyddiwyd a'r gwariant a wneir ar addysg ac ysgolion, trwy ei dîm Cyfathrebu a dulliau eraill;
- Pwysigrwydd ymdrechion a wneir gan y Cyngor trwy ei ysgolion a'i sefydliadau addysgol i fynd i'r afael â thlodi ac effaith hyn ar blant a'u teuluoedd megis cyfleoedd a gollwyd, trwy ddarparu cefnogaeth mewn meysydd megis datblygu sgiliau hanfodol a sylfaenol a chyfleoedd eraill;
- Yr angen i sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol mor hygyrch, hawdd a syml i'w ddeall â phosibl, er mwyn cyrraedd pobl iau a grwpiau eraill o bobl ym Mro Morgannwg;
- Yr angen i gryfhau ymgysylltiad a grymuso pobl ifanc ymhellach ym Mro Morgannwg ac i estyn allan at bobl nad ydynt fel arfer yn ymgysylltu ac yn ymateb i'r Cynllun Corfforaethol a'r ymgynghoriad. Dylai hyn gynnwys cydweithio â Phennaeth Gwasanaeth Digidol ac Ieuenctid Cyngor Bro Morgannwg i helpu i wella ymgysylltiad â phobl iau, ac ati drwy gyfathrebu digidol a dulliau costeffeithiol tebyg eraill;
- Sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn cael ei fonitro a'i graffu'n barhaus, fel bod ei dargedau a'i amcanion yn cael eu cyflawni, eu cyflawni a'i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r amcanion hyn;
- Ystyried cynnwys yn ymdrechion y Cynllun i fynd i'r afael â thlodi, y modd o fynd i'r afael â chanlyniadau addysgol gwael a sicrhau bod plant yn derbyn ac yn cyrraedd y deilliannau a'r safonau addysgol priodol ar wahanol gamau o'u taith addysgol.

Rheswm dros yr argymhelliad

I sylwadau'r Pwyllgor gael eu rhannu gyda'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i lywio diwygiadau i'r Cynllun Corfforaethol, cyn i'r Cabinet eu hystyried.